**Eitem Agenda Rhif 6**

**Yn Adrodd i:** **Y Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **20 Mawrth 2012**

**Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd D A J Thomas**

**Awdur yr Adroddiad:** **Mark Dixon**

**Teitl:** **Cynllun Tref Llangollen**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad ynghylch cynllun tref sydd wedi'i baratoi ar gyfer Llangollen.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r Cyngor Sir wedi gwahodd y cynghorau tref, a'r gymuned fusnes a sectorau gwirfoddol ym mhob un o'i brif drefi, i ymuno gyda'i gilydd i ddatblygu Cynlluniau Tref. Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau cefnogaeth i Gynllun Tref Llangollen ar ran y Cyngor Sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cefnogi'r cynllun tref arfaethedig i Langollen.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r cynllun tref yn dangos y sefyllfa bresennol yn y dref, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol y bydd yn eu hwynebu yn ystod y ddegawd nesaf, yr weledigaeth a fydd yn rhoi dyfodol cynaliadwy i'r dref a'r gwaith realistig a chyraeddadwy a fydd yn gallu gwireddu'r weledigaeth.

Mae cynllun tref arfaethedig i Langollen ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd paratoi cynlluniau trefi o gymorth i'r Cyngor Sir gyrraedd ei amcan strategol o "ddod â'r Cyngor yn agosach at y gymuned" a chyrraedd canlyniadau ei flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer adfywio.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau'n codi'n uniongyrchol o gefnogi'r cynllun tref arfaethedig a does dim canlyniadau ychwaith i wasanaethau eraill. Bydd angen ystyried unrhyw waith nad yw eisoes wedi'i gytuno trwy'r prosesau cynllunio statudol neu fusnes perthnasol ar yr adeg briodol.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

Cynhaliwyd gweithdy i aelodau ar 14 Mawrth 2011 ynghylch diben a strwythur y cynlluniau tref ac roedd hefyd eitem agenda ym mriffiadau'r Cabinet ar 5 Ebrill 2011, yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 19 Mai 2011 ac mewn Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 27 Hydref 2011.

Estynnwyd gwahoddiad i bob Pennaeth Gwasanaeth gymryd rhan ar bob cam o ddatblygu'r cynllun drafft. Mae wedi'i ystyried gan aelodau lleol wardiau Llangollen, gan aelodau Cyngor Tref Llangollen ac mae trafodaeth wedi'i threfnu gyda chynrychiolwyr Siambr Masnach Llangollen. Mae hefyd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y cyngor ac yn siop un stop y dref. Cyfeirir at unrhyw sylwadau ychwanegol a dderbynnir yn y cyfarfod.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd yn rhaid ystyried a chymeradwyo goblygiadau costau ac ariannu, yn unigol, pob eitem o waith nad yw eisoes wedi'i gytuno, sy'n codi o'r cynllun.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risg o beidio â mabwysiadu cynlluniau tref cyn yr etholiad Cyngor Sir nesaf wedi'i leihau drwy eu cynnwys ym mlaen rhaglen waith cyfarfodydd y Cabinet yn arwain at fis Mawrth 2012.

## 10. Yr Hawl i Benderfynu

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r hawl i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.